# Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

CELG(4)-05-11 : Papur 2

## Papur tystiolaeth ar y Gyllideb Ddrafft: Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir ariannol i'r Pwyllgor ynghylch y cynlluniau gwario ar gyfer y rhannau hynny o bortffolio'r Gweinidog sy'n ymwneud â Thai a Threftadaeth, fel yr amlinellir yn y Gyllideb Ddrafft.

2. Yn Atodiad A mae gwybodaeth fanylach am y Gyllideb Ddrafft, fesul Cam Gweithredu a'r BEL o fewn pob Cam Gweithredu. Mae hefyd yn cynnwys y cyllidebau drafft ar gyfer y rhan honno o'r portffolio sy'n ymwneud ag Adfywio, sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes.

### Cefndir a Chrynodeb

3. Gellir crynhoi ffigurau'r gyllideb ddrafft ar gyfer y meysydd hynny sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor hwn fel a ganlyn:

| **Maes y Rhaglen Wariant** | **Llinell Sylfaen 2011-12 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2012-13 £'000** | **Cynlluniau Dangosol 2013-14 £'000** | **Cynlluniau Dangosol 2014-15 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Refeniw:** | | | | |
| Amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd | 38,191 | 37,436 | 37,445 | 37,445 |
| Y celfyddydau | 39,428 | 38,782 | 39,569 | 39,569 |
| Chwaraeon a gweithgaredd corfforol | 25,437 | 24,923 | 24,853 | 24,899 |
| Yr amgylchedd hanesyddol | 11,712 | 11,658 | 11,541 | 11,541 |
| **Cyfanswm Treftadaeth** | **114,768** | **112,799** | **113,408** | **113,454** |
| Tai | 154,765 | 151,147 | 151,792 | 151,792 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **269,533** | **263,946** | **265,200** | **265,246** |
| | | | | |
| **Cyfalaf:** | | | | |
| Amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd | 5,673 | 4,973 | 4,043 | 4,043 |
| Y celfyddydau | 485 | 480 | 475 | 475 |
| Chwaraeon a gweithgaredd corfforol | 345 | 345 | 345 | 345 |
| Yr amgylchedd | 5,500 | 5,313 | 5,031 | 5,031 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| hanesyddol | | | | |
| **Cyfanswm Treftadaeth** | **12,003** | **11,111** | **9,894** | **9,894** |
| Tai | 249,392 | 231,970 | 206,782 | 206,782 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **261,395** | **243,081** | **216,676** | **216,676** |
| | | | | |
| **CYFANSWM Y GYLLIDEB*** | **530,928** | **507,027** | **481,876** | **481,922** |

* Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Ceir y manylion isod.

4. Un 'ysgafn' fu proses y gyllideb eleni. O gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Derfynol y llynedd (fel y cafodd ei hailddatgan ar gyfer y newidiadau portffolio), mae cyfanswm y dyraniad ar gyfer Tai a Threftadaeth wedi cynyddu £0.353 miliwn yn 2012-13 a £0.621 miliwn yn 2013-14. Mae'r cynllun dangosol ar gyfer 2014-15, a gyhoeddir am y tro cyntaf, yn cynnwys £0.046 miliwn yn ychwanegol uwchlaw ffigur 2013-14.

5. Mae'r cyllidebau ychwanegol yn ymwneud â:

- Dyraniadau ychwanegol i gostau rhedeg Cadw o £0.353 miliwn yn 2012-13, a fydd yn codi i £0.621 miliwn yn 2014-15, gan gydnabod ei rôl o ran darparu gwasanaethau rheng flaen sy'n dod â budd i dwristiaeth, addysg a datblygu cynaliadwy ehangach; a

- Swm ychwanegol o £0.046 miliwn yn 2014-15 ar gyfer yr ymrwymiad i Nofio am Ddim.

**Y Rhaglen Lywodraethu**

6. Mae gan yr Adran gylch gwaith eang. Mae'n gyfrifol am ddatblygu a chyflawni polisïau ar dai, adfywio, y celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a hamdden egnïol, amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd, a'r amgylchedd hanesyddol.

7. Mae gan yr adran sawl prif nod a adlewyrchir yn y Rhaglen Lywodraethu drwyddi draw. Dengys y gyllideb hon sut y byddwn yn cyflawni yn 2012-13 a thu hwnt. Byddwn yn sicrhau bod gan bobl gartrefi cynnes a diogel o'r radd flaenaf i fyw ynddynt. Daw effaith ein hymyriadau yn y maes hwn yn amlycach dros y tymor hir wrth i ni wneud newidiadau i ddeddfwriaeth gynllunio ac wrth i ni ehangu ein stoc o dai cymdeithasol. Yn y tymor byr, fodd bynnag, bydd dylanwadau economaidd fel polisi cyllidol ac ariannol y DU yn cael effaith fawr ar ein llwyddiant cyffredinol.

8. Byddwn yn parhau i gefnogi diwylliant a threftadaeth Cymru i ddarparu gwell sylfaen i fywyd drwy hybu ffyniant lleoedd, diwylliant, chwaraeon a'r cyfryngau.

**Tai**

9. Y llynedd, cyhoeddwyd ein strategaeth dai genedlaethol *Gwella Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru*. Ynddi yr oeddem yn pennu'n blaenoriaethau strategol ar gyfer tai, sef cynyddu'r cyflenwad o dai, gwella eu hansawdd, a gwella gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai – yn enwedig yn achos pobl agored i niwed neu'n ddigartref.

Cynyddu'r cyflenwad o dai

10. Rydym yn awyddus i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r cyflenwad o dai er mwyn bodloni'r galw a chynyddu nifer y tai fforddiadwy. Bydd hynny hefyd yn help i fynd i'r afael â digartrefedd. Rydym yn buddsoddi cyfanswm o £57 miliwn (cyfalaf o £55 miliwn a refeniw o £2 filiwn) yn y Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol yn 2011-12. Bydd y ffigur hwn yn gostwng i ryw £46 miliwn yn y dyfodol. Serch hynny, mae'n bwysig cofio'r twf yn y rhaglen hon yn y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â'r cyllid ychwanegol o £62 miliwn a ddarparwyd o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol.

11. Hefyd, ac mewn ymateb i'r gostyngiad yn y cyllidebau cyfalaf, rydym yn ystyried dulliau arloesol newydd o gynyddu'r cyflenwad gyda chynnyrch megis "Rhent Cyntaf" – tai gyda rhent canolradd sydd angen llai o grant tai cymdeithasol i'w datblygu; a Phartneriaeth Tai Cymru a lansiwyd yn ddiweddar – partneriaeth gyda chymdeithasau tai sy'n buddsoddi ecwiti.

Ansawdd tai

12. Un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru yw sicrhau fod gan bobl gartref sy'n bodloni eu hanghenion - cynnes, fforddiadwy, diogel, mewn cyflwr da, nad yw'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Mae tŷ yn annatod i fywydau pobl. Mae'n effeithio ar iechyd a lles, ansawdd bywyd, a chyfleoedd unigolion a theuluoedd gydol eu hoes. Dyna pam yr wyf yn cadw'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr ar £108 miliwn y flwyddyn. Mae'r gyllideb hon yn ariannu atgyweiriadau mawr i dai awdurdodau lleol, a thaliadau gwaddoli ar gyfer tai a arferai fod ym meddiant yr awdurdodau lleol ond sydd bellach wedi'u trosglwyddo i landlordiaid newydd. Mae'r ddwy ffrwd ariannu hon yn helpu i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru, sy'n anelu at sicrhau fod y stoc o dai cymdeithasol yng Nghymru yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai

13. Rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi dros £130 miliwn y flwyddyn mewn cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl agored i niwed drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae hyn yn flaenoriaeth os ydym i fynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles a'r cyni economaidd. Mae'r rhaglen yn cefnogi 50,000 o bobl y flwyddyn ac yn rhoi gwerth da am arian am bob punt a wariwn yng Nghymru. Rydym hefyd yn ymrwymedig i atal digartrefedd, sy'n un o'r enghreifftiau gwaethaf o amddifadedd.

14. Mae galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd hefyd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a dyna pam yr ydym wedi diogelu ein buddsoddiad yn y Rhaglen Addasiadau Brys. Mae'r rhaglen hefyd yn helpu i leihau'r pwysau ar y GIG a gwasanaethau cymdeithasol drwy alluogi pobl i adael yr ysbyty neu ofal preswyl cyn gynted ag y bo modd.

15. O fewn y cyllidebau Tai, mae llinell yn y gyllideb ar gyfer cyllid cyfalaf cyffredinol awdurdodau lleol, sy'n gyfanswm o £47.2 miliwn yn 2012-13. Nid yw'r arian hwn wedi'i neilltuo, ac felly, wedi iddo gael ei ddosbarthu i'r awdurdodau lleol fel rhan o'r setliad llywodraeth leol, nid oes modd i ni roi cyfarwyddyd ynghylch sut i'w wario.

**Treftadaeth**

16. Mae rhoi gwell sylfaen i fywyd drwy sicrhau ffyniant lleoedd, diwylliant, chwaraeon a'r cyfryngau yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i roi cymorth ariannol i Gyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Chwaraeon Cymru a Cadw.

17. Rydym yn sylweddoli mor bwysig yw'r celfyddydau i Gymru a'r cyfraniad y gallant ei wneud i ansawdd bywydau pobl. Dyna pam yr ydym yn parhau i ddiogelu'r cyllid ar gyfer y celfyddydau yn y Gyllideb hon. Byddwn hefyd yn parhau i roi cymorth ariannol i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

18. Bydd y cymorth a roddwn i Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ein galluogi i barhau i roi mynediad am ddim i safleoedd yr Amgueddfa Genedlaethol. Byddwn hefyd yn parhau i roi cymorth ariannol ac arweiniad strategol i amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd drwy CyMAL gan gydnabod y cyfraniad sylweddol y mae'r gwasanaethau hyn yn ei wneud i gymunedau lleol o ran mynediad at wybodaeth a threftadaeth ddiwylliannol, a'u rôl o ran cefnogi twristiaeth yng Nghymru.

19. Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Mae Cadw yn gyfrifol am warchod y dreftadaeth hon, sy'n cynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd, adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig. Mae Cadw hefyd yn gweithio i gynnal cymeriad unigryw ein trefi a'n tirwedd ac yn helpu pobl ddeall a gofalu am eu lleoliad a'u hanes. Rydym yn cydnabod mor bwysig yw'r cyfraniad hwn yn economaidd ac yn gymdeithasol ac rydym yn ymrwymedig i'w rhaglen barhaus o waith.

20. Hefyd, rydym yn ymrwymedig i gyflawni'r Prosiect Twristiaeth £19 miliwn, a fydd yn gwella cwmpas llawer o'n henebion a phrofiadau ein hymwelwyr. Llywodraeth Cymru a Chronfeydd Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd sy'n ariannu'r prosiect yn bennaf. Bydd yn helpu i wneud yn fawr o werth economaidd ein treftadaeth drwy gynyddu nifer, hyd a gwerth yr ymweliadau â Chymru. Bydd y prosiect hefyd yn helpu i wneud treftadaeth ragorol Cymru yn agored i gynulleidfa ehangach drwy ei gwneud yn fwy pleserus i ymwelwyr a phobl sy'n byw yng Nghymru. Cadw sy'n arwain y prosiect wedi iddo wneud cais llwyddiannus am Gyllid Cydgyfeirio. Bydd y prosiect yn rhedeg tan fis Rhagfyr 2014 ac mae'n

werth cyfanswm o £19 miliwn. Mae rhan o raglen gwaith cyfalaf Cadw yn rhoi arian cyfatebol ar gyfer y prosiect hwn.

21. Yr ydym hefyd yn cydnabod y manteision lu a all ddod yn sgil chwaraeon a gweithgaredd corfforol ar wahanol lefelau, gan gynnwys gwell iechyd a lles i unigolion. I gefnogi hyn, rydym yn ymrwymedig i barhau â'n hymrwymiad i nofio am ddim, ac rydym wedi darparu cyllid ychwanegol o £46k yn 2014-15 i gynnal y ddarpariaeth.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol**

22. Mae'r cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn cynnwys:

- Darpariaeth ar gyfer unrhyw daliadau pensiwn a all fod yn angenrheidiol yn achos cynlluniau pensiwn Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Y cyfanswm ar gyfer 2012-13 yw £2.490 miliwn. Cyllideb heb fod yn arian parod yw hon;

- Credyd - o £61 miliwn yn 2012-13 - sy'n cynrychioli'r swm, a gyfrifwyd ar sail fformiwla, y mae angen i Awdurdodau Lleol Cymru ei ad-dalu i'r Trysorlys yn achos y system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (HRAS). Yn Lloegr, mae awdurdodau lleol wedi prynu eu hunain allan o'r system, ac rydym ar hyn o bryd yn ystyried y posibilrwydd o wneud yr un modd yng Nghymru.